Engagement processes should try to develop the skills, knowledge and confidence of all participants.

8 Engagement is given the right resources and support to be effective

Appropriate training, guidance and support are provided to enable all participants to effectively engage, including both community participants and staff.

9 People are told the impact of their contribution

Timely feedback is given to all participants about the views they expressed and the decisions or actions taken as a result; methods and form of feedback should take account of participants' preferences.

10 Learn and share lessons to improve the process of engagement

People's experience of the process of engagement should be monitored and evaluated to measure its success in engaging people and the effectiveness of their participation; lessons should be shared and applied in future engagements.

These Principles were developed by Participation Cymru working with TPAS Cymru, under the guidance of the Participation Cymru partnership. Endorsed by The First Minister of Wales, The Right Hon. Carwyn Jones AM on behalf of the Welsh Government.

Further guidance on the National Principles can be found at

www.participationcymru.org.uk

March 2011

EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU



1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth
Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny
Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol
Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol
Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall
Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan
Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol
Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad
Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu
Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o

www.participationcymru.org.uk

Mawrth 2011

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Tachwedd 2014
Swyddogion Arweiniol:	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Cydlynnydd Archwilio
Teitl:	Amserlen Pwyllgor ar gyfer 2015 / 2016

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn am sylwadau ar amserlennu ac ar faterion sy'n ymwneud â'r pwyllgor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn gynnar yn 2015, bydd angen i'r Cyngor gymeradwyo amserlen o'r prif gyfarfodydd pwyllgor ar gyfer 2015 / 16. Pan gymeradwywyd y Cyngor ei amserlen ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol gofynnodd yr aelodau am ymestyn yr amserlen 12 mis i amserlen 18 mis.

Yn ddiweddar cynigodd proses *Rhyddid a Hyblygrwydd* y Cyngor i leihau amserlen y pwyllgor o 1 cyfarfod pwyllgor y flwyddyn ddinesig nesaf, er mwyn lleihau gwariant.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried:

- (i) materion sy'n ymwneud ag ymestyn amserlen flynyddol y pwyllgor i gyfnod o 18 mis; a'i
- (ii) farn o ran y mecanwaith sydd i'w defnyddio i leihau nifer y cyfarfodydd a gynhelir gan bob pwyllgor bob blwyddyn gan 1 cyfarfod.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau gyda Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai, pan fydd yr amserlen bresennol o gyfarfodydd y pwyllgor yn dod i ben.

Amserlen 18 Mis

- 4.1 Cafodd amserlen hirach ei argymhell gan rai aelodau ar y sail y byddai'n caniatáu i aelodau gynllunio eu gweithgareddau yn well a rheoli eu hymrwymadau dyddiadur. Felly, y bwriad yw y bydd yr amserlen ddrafft ar gyfer 2015/16 yn rhedeg o fis Mai 2015 i Rhagfyr 2016 (yn hytrach nag o fis Mai 2015 i Mai 2016).

- 4.2 Byddai amserlen newydd yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor yn ystod rhan gyntaf 2016 a fyddai wedyn yn rhoio ymlaen y cyfnod a gymeradwywyd eisoes (Mai 2016 i fis Rhagfyr 2016) a'i ymestyn tan fis Rhagfyr 2017.
- 4.3 Yn Ebrill 2013 ystyriodd y Cyngor ganlyniadau arolwg o'r holl aelodau o'u dymuniadau o ran yr amseru (cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos, ac ati) a lleoliad cyfarfodydd Cyngor a phwyllgor. Yn seiliedig ar farn yr aelodau ar y pryd, cynigir cadw'r cymysgedd presennol o gyfarfodydd boreol yn bennaf ond gyda rhai cyfarfod pwyllgorau neu baneli yn y prynhawn. Mae'r Cyngor yn trefnu nifer fach o gyfarfodydd gyda'r nos (ar gyfer rhai o'r Grwpiau Ardal Aelod, er enghraifft). Byddai'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd y Sir, ond gallai rhai cyfarfodydd gael eu trefnu ar gyfer lleoliadau eraill yn y sir.

Gostwng Nifer y Cyfarfodydd: Rhyddid a Hyblygrwydd

- 4.4 Ym mis Hydref 2014, ystyriodd Gweithdy Cyllideb yr Aelodau gynigion newydd i arbed arian o dan y broses *Rhyddid a Hyblygrwydd*. Ystyriodd y Gweithdy sut y byddai cael llai o gyfarfodydd pwyllgor yn lleihau costau teithio ac y byddai'r swm a arbedir yn dibynnu ar ba bwyllgorau fyddi'n cael eu gostwng, ac aelodaeth y pwyllgorau hynny (h.y. a oedd yr aelodau dan sylw yn hawlio treuliau, a pha mor hir oedd eu teithiau).
- 4.5 Amcangyfrifwyd bod pob cyfarfod o'r Cyngor llawn yn costio tua £200 mewn costau teithio, bod cyfarfod Pwyllgor Cynllunio yn costio £137, cyfarfod o'r Cabinet yn £95, cyfarfod Pwyllgor Archwilio yn £50 a chyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn £52.
- 4.6 Byddai gostwng y pwyllgorau uchod o 1 cyfarfod y flwyddyn yn debygol o leihau gwariant ar deithio gan amcangyfrif o £600. Byddai arbedion ychwanegol yn cael eu gwneud gan gynnwys pwyllgorau eraill (Briffio'r Cyngor a Briffio'r Cabinet, Pwyllgor Trwyddedu, Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol etc). Dylid nodi nad yw'r rhan fwyaf o gostau teithio aelodau yn cael eu creu gan y prif gyfarfodydd pwyllgor hyn; yn hytrach maent mewn cysylltiad â chyfarfodydd eraill, sesiynau briffio, sesiynau hyfforddi eraill a gweithio gyda sefydliadau allanol y mae aelodau yn ei wneud yn rheolaidd fel rhan o'u dyletswyddau fel cynghorwyr.
- 4.7 Yn ogystal â gostwng y cyfarfodydd, gellid gwneud arbedion o gynnal dau gyfarfod ar yr un diwrnod, h.y. un yn y bore ac un yn y prynhawn. Dylid nodi, fodd bynnag, y byddai arbedion ond yn cael eu gwneud pe bai'r aelodau a oedd yn gysylltiedig â'r ddau gyfarfod yma yn bwriadu bod yn bresennol yn y ddau gyfarfod a hawlio costau teithio. Oherwydd y cysylltu hwn rhwng cyfarfodydd, er enghraifft, Pwyllgor Safonau gyda chyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu, mae'n debygol ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar wariant.
- 4.8 Gallai gostyngiad o 1 cyfarfod fesul pwyllgor fel sy'n ofynnol o dan *Rhyddid a Hyblygrwydd* olygu ymestyn cylch amserlen cyfarfod pob pwyllgor. Mae'r Cabinet, er enghraifft, fel arfer yn cwrdd unwaith bob mis calendr (yn

ddelfrydol tua diwedd y mis er mwyn gallu adrodd yn brydlon am wybodaeth ariannol). Gallai cylch hirach adael bwlch o 5 neu fwy o wythnosau rhwng cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Cynllunio hefyd yn cyfarfod unwaith bob mis calendr, tra bod y Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar y cyfan yn gweithio ar gylch 6 wythnosol; byddai ymestyn yr amser rhwng cyfarfodydd y pwyllgorau hyn yn gostwng nifer y cyfarfodydd.

- 4.9 Fel arall, gellid cael gwared ar un cyfarfod o bwyllgor yn syml heb newid cylch cyffredinol y pwyllgor dan sylw. Gofynnir am farn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar sut y dylid cyflawni'r gostyngiad mewn cyfarfodydd pwyllgor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniadau a'r wybodaeth sy'n deillio o'r adroddiad hwn yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgor sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cwrdd ag amcanion y Ddeddf Cydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw'r aelodau pwyllgorau a swyddogion cefnogi er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu rhan fwyaf o gyfarfodydd. Mae diddordeb unigolion neu grwpiau yn debygol o ddibynnu ar y pwnc dan sylw.

Cafodd arolwg o gynghorwyr ei gynnal yn 2012 ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd ac mae'r canlyniadau wedi eu cymryd i ystyriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod mwyaf addas pryd bynnag y bo modd (o ran mynediad, parcio, cyfleusterau toiled, cludiant cyhoeddus).

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd a'r Cyngor Llawn a rhoddwyd arweiniad ar amseru a hyd amserlen y Pwyllgor. Mae'r Aelodau hefyd wedi ystyried sut y gall gostwng nifer y cyfarfodydd sicrhau arbedion trwy eu gweithdai cyllideb.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni chafwyd datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methiant i gadarnhau amserlen cyfarfodydd newydd a materion eraill sy'n gysylltiedig â phwyllgorau yn yr adroddiad hwn yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Tachwedd 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Teitl:	Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 a ddaeth i rym ar 5 Rhagfyr, 2013 a'r Canllawiau Statudol drafft a gynhyrchwyd i gyd-fynd â nhw. Dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud Rheolau Sefydlog i roi grym i'r amodau penodedig sydd angen eu bodloni er mwyn i aelod gael yr hawl i gael cyfnod o absenoldeb teuluol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y newidiadau hyn a thrafod y diwygiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor sy'n ofynnol cyn i'r Cyngor gytuno arnynt.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi cymeradwyaeth i wneud yr argymhellion canlynol i'r Cyngor llawn:

- (i) Dylid rhoi awdurdod dan ddirprwyaeth i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau angenrheidiol hyn i Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog i roi grym i ofynion y Mesur a'r Rheoliadau (gweler atodiad 1)
- (ii) Dylid llunio panel gwleidyddol gytbwys o 3 o aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i benderfynu ar unrhyw apeliadau neu gwynion os yw Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gwrthod rhoi cyfnod o absenoldeb teuluol.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Rhan 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cyflwyno hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a bydd hawl gan aelod i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi y bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Sir Ddinbych) yn cymryd cyfrifoldeb am ddelio â hysbysiadau absenoldeb teuluol.
- 4.2 Mae adran 23 yn caniatáu i aelodau sydd â hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod, gan gynnwys cyfarfodydd gweithredol lle bo'n berthnasol, yn ystod cyfnodau o absenoldeb teuluol, yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan y Rhan hon o'r Mesur.

Mae'r Mesur yn creu hawl i bum math o absenoldeb teuluol.

- absenoldeb mamolaeth
- absenoldeb newydd-anedig
- absenoldeb mabwysiadu
- absenoldeb mabwysiadu newydd
- absenoldeb rhiant

Mae hawl gan aelodau i dderbyn y mathau hyn o absenoldebau ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol a nodir yn y Rheoliadau a wnaed dan y Mesur.

4.3 Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013, ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2901/contents/made?regulation-14-a> ac maent yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid i Aelodau eu bodloni er mwyn cael hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â graddau'r gwahanol gyfnodau o absenoldeb, y gallu i'w canslo a dod â'r absenoldeb i ben. Rhennir y Rheoliadau hyn yn chwe rhan.

- Mae Rhan 1 y Rheoliadau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth. Mae'r rhan hon yn caniatáu hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth i Aelodau ac yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r Aelod fod yn gymwys i dderbyn y cyfnod hwnnw o absenoldeb.
- Mae Rhan 2 yn ymwneud ag absenoldeb newydd-anedig ac yn rhoi'r hawl i Aelod dderbyn 2 wythnos yn olynol o absenoldeb newydd-anedig. Mae Rhan 2 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i dderbyn absenoldeb o'r fath.
- Mae Rhan 3 y Rheoliadau yn caniatáu i Aelod dderbyn absenoldeb mabwysiadu. Graddau'r hawl i absenoldeb mabwysiadu yw 2 wythnos yn olynol. Mae Rhan 3 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i dderbyn absenoldeb mabwysiadu.
- Mae Rhan 4 y Rheoliadau yn delio ag absenoldeb mabwysiadu o'r newydd. Mae gan Aelod hawl i 2 wythnos yn olynol o absenoldeb mabwysiadu o'r newydd. Mae Rhan 4 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod fod yn gymwys i dderbyn absenoldeb mabwysiadu o'r newydd.
- Mae Rhan 5 y Rheoliadau yn caniatáu absenoldeb rhiant. Mae absenoldeb rhiant ar gael i Aelod sy'n dod yn gyfrifol am blentyn a arferai fod yn gyfrifoldeb i rywun arall. Mae absenoldeb rhiant ar gael am gyfnod o hyd at 3 mis. Mae Rhan 5 y Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau i'w bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i gyfnod o absenoldeb rhiant.
- Mae Rhan 6 y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw cofnodion, dyletswyddau i hysbysu, hawl yr awdurdod lleol i ganslo absenoldeb teuluol, cwynion a Rheolau Sefydlog yn ymwneud ag Aelodau wrth gael cyfnod o absenoldeb teuluol.

- 4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau sydd ynghlwm yn Atodiad 2.
- 4.5 Bydd angen i'r Cyngor ystyried gofynion y Rheoliadau a'r Canllawiau ac adolygu ei Gyfansoddiad yn unol â hynny er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gofynion hyn.

Cyflogau Aelodau

- 4.6 Cynhyrchodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol adroddiad atodol ym mis Mawrth 2014 mewn perthynas ag absenoldeb teuluol aelodau etholedig. Dangosir penderfyniadau'r Panel sy'n berthnasol i Sir Ddinbych isod.
- i) Mae hawl gan aelod i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol o dan y rheoliadau heb ystyried cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.
 - ii) Pan fydd deiliad cyflog uwch yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, gall o/hi barhau i dderbyn y cyflog drwy gydol cyfnod yr absenoldeb. Mater i'r awdurdod yw penderfynu a ddylid penodi dirprwy.
 - iii) Bydd yr aelod sy'n dirprwyo yn lle deiliad cyflog uwch sy'n derbyn absenoldeb teuluol yn gymwys i dderbyn cyflog uwch, os bydd yr awdurdod yn penderfynu felly.
 - iv) Os bydd talu'r dirprwy yn golygu fod yr awdurdod yn mynd dros yr uchafswm sydd ganddo o ran cyflogau uwch, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Panel, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm drwy gydol y cyfnod dirprwyo.
 - v) Pan fydd awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu'r Panel, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, o'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyo.
 - vi) Mae'n rhaid diwygio'r rhestr gydnabyddiaeth i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw cynnwys yr adroddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn oni bai bod dirprwyon ar ran deiliaid cyflogau uwch yn derbyn lwfans cyflog uwch.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni chafwyd datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

9. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os nad fydd y Cyngor yn cyflwyno mesurau priodol i gofnodi cyfnodau o absenoldeb teuluol a diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r gwahanol hawliau i absenoldeb teuluol mae perygl na fydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

Regulations relating to the Council's Standing orders

37.

A local authority must, as soon as is reasonably practicable after the coming into force of these Regulations, make standing orders securing the requirements set out in regulation 38.

38-

(1) A member on maternity absence or parental absence may, subject to paragraphs (2) to (6),—

- (a) attend particular meetings;
- (b) attend particular descriptions of meetings;
- (c) perform particular duties; or
- (d) perform duties of a particular description.

(2) The member must obtain the permission of the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member, before attending any meeting or performing any duty.

(3) The chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member, must inform the leaders of each political group of the local authority before granting permission under paragraph (2).

(4) A member may complain in writing to the head of democratic services regarding a refusal under paragraph (2).

(5) The head of democratic services must refer a complaint under paragraph (4) to the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, to the presiding member.

(6) A panel constituted in accordance with these Regulations must determine a complaint made under paragraph (4).

(7) The panel may—

- (a) confirm the decision of the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the decision of the presiding member, under paragraph (2); or
- (b) substitute its own decision as to the member attending any meeting or performing any duty.

39

A local authority must, as soon as is reasonably practicable after the coming into force of these Regulations, make provision in standing orders as to the extent of the duties, if any, which remain applicable to members during a period of family absence.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

FAMILY ABSENCE

Statutory Guidance made under Section 30 of the Local Government (Wales) Measure 2011

Introduction

1. Part 2 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (“the Measure”) introduces an entitlement to a period of family absence for members of county and county borough councils, during which a member is entitled to be absent from authority meetings.

What the Measure requires

2. This is statutory guidance issued under section 30 of the Measure. A local authority must have regard to this guidance in exercising its functions under Part 2 of the Measure.
3. Section 23 allows members who are entitled to a period of family absence to be absent from meetings of the authority, including executive meetings where applicable, during periods of family absence, in accord with regulations made under this Part of the Measure. The Measure creates an entitlement to five types of family absence: maternity absence; newborn absence; adopter’s absence; new adoption absence; and parental absence.
4. The Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013 (“the Regulations”) are made under Part 2 of the Measure and prescribe the conditions to be satisfied for a member to be entitled to a period of family absence.
5. A member is entitled to a period of maternity absence where the member satisfies conditions prescribed within the Regulations. The Regulations also include provision concerning the duration, start, cancellation and end of any maternity absence. The Measure restricts the period of maternity absence to a maximum of 26 weeks.
6. Newborn absence concerns absence granted to the “parent” of a child other than the mother. The Regulations prescribe conditions relating to the relationship between the member and child required for the member to be entitled to a period of newborn absence. Newborn absence is designed to allow a person who satisfies the prescribed conditions to assist in the caring for the child and mother. The Regulations also make provision relating to the length of newborn absence and when it should be taken.
7. Section 26 creates an entitlement to adopter’s absence. The Regulations prescribe the condition to be satisfied, the length of such absence and when it can be taken, subject to the provision that it cannot last more than two weeks. Section 27 deals with new adoption absence available to a member who satisfies prescribed conditions as to their relationship to an adopter.

8. Parental absence applies to a member who becomes responsible for a child (who was previously the responsibility of someone else). The Regulations enable a member to be absent on parental absence for a period of up to three months.
9. Section 29 enables regulations to provide for the administrative machinery of any family absence as well as the process for dealing with any complaints of abuse of absence. It also allows regulations to provide for any duties which members may perform during a period of family absence.

Guidance

10. The Measure and Regulations must be read together with this guidance.
11. The introduction of family absence provides members with entitlements to enable members who have babies or become responsible for looking after children to be able to continue as members with recognised, legitimate, absence, in an open fashion, rather than be potentially subject to criticism for not fulfilling their duties as members.
12. Section 8 of the Measure requires local authorities to designate an officer as the authority's Head of Democratic Services (HDS). The Measure provides that the HDS may make arrangements for an officer appointed by them to discharge the functions of the HDS under the Measure. All references to the HDS in this guidance and the Regulations should be taken as including any officer appointed by them to fulfil the duties under the Measure. The Regulations prescribe that the HDS will take the responsibility for dealing with notifications of family absence.
13. This is clearly a potentially delicate area for the HDS. It involves dealing with members during a very important development in their personal lives. The responsibility the HDS will have for keeping records, including the dates applicable to the absence and any suspicion that the family absence entitlement is being abused will require sensitivity. The HDS should take a flexible approach towards any request to vary the start or finish dates of absence, provided they are within the total allowance. With respect to actions which might result in the withdrawal of the entitlement, there should be a high degree of certainty in the mind of the HDS before proceeding along this course.
14. As stated above, in most circumstances, the HDS must be notified in writing before any period of family absence. In addition, the Regulations contain other notification requirements, such as under the complaint provisions. Notification by way of an e-mail or any other electronic format would satisfy the written requirement in respect of any notification required under the Regulations.
15. Under normal circumstances, the HDS should not be expected to request evidence of pregnancy or the expected date of childbirth unless there are grounds for suspicion that the notice given by the member is questionable.

16. Newborn absence is aimed to assist partners of mothers by enabling them to take a period of absence during the first 56 days after childbirth.
17. Adopter's absence entitles members to a period of absence of two weeks. The entitlement arises at the physical date of placement of the child with the member for adoption. It is the actual date of placement of the child which is important for the start of this absence, not the date of placement according to any legal document. No evidence of adoption is required from the member in order to be entitled to a period of adopter's absence.
18. A member who satisfies prescribed conditions as to their relationship with another person who is adopting a child may take two weeks new adoption absence. A member is not entitled to take adopter's and new adoption absence in relation to the same child. Multiple children adopted at the same time would not enable a member to take multiple periods of new adoption absence. If a member jointly adopts a child with another member, one member may elect to be the child's adopter for the purposes of the Regulations and would be entitled to a period of adopter's absence. The other member would not be entitled to a period of adopter's absence but would be entitled to a period of new adoption absence.
19. A member shall be entitled to parental absence if they become responsible for the care of a child under the age of 14. The member must notify the HDS of this responsibility and the HDS must be satisfied that such a responsibility is real and may require supporting evidence.
20. Responsibility for a child for the purposes of Part 5 of the Regulations is not limited to members who are granted parental responsibility for a child as defined in section 3 of the Children Act 1989. It is intended that parental absence would be available to members who become temporarily responsible for the care of a child in addition to members who become the subject of more permanent responsibilities. For example, a member who takes responsibility for the care of a child whilst the parent is temporarily unable to fulfil these responsibilities for reasons such as illness, would be entitled to a period of parental absence.
21. A member may decide to stage parental absence over various periods during the year from when the member became responsible for the child. The member must notify the HDS as to the staging of the periods of absence in advance, although it is not expected that a member inform the HDS of the start date and duration of each and every period of parental absence at the outset. If possible, the member should seek to inform the HDS of the intended periods of absence. However, it is accepted that this may not always be possible and would not afford the necessary degree of flexibility. In which case, as long as the HDS is informed at the outset of the member's general approach to the taking of absence and the HDS is informed in advance of each individual period of absence, the member would be entitled to periods of parental absence.

22. The HDS is required to inform the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member of that authority, the chair of the Democratic Services Committee (DSC) and, the leaders of each political group of the authority of any period of family absence in advance of it being taken or at the earliest possible date thereafter. The HDS is free also to inform any other persons felt necessary. For instance, this could include members of the authority representing the same or neighbouring divisions.
23. On receiving information from the HDS that a member may not be entitled to a period of family absence, a local authority may decide to cancel or curtail a member's family absence if it believes that the permitted absence is fraudulent, has been abused or simply that the member is not entitled to a period of family absence. It would be open to an authority in such a situation to decide whether the issue should be referred to their Standards Committee for their consideration.
24. A member may appeal against a decision to withdraw entitlement to family absence. Complaints must be in writing, however, as stated above a complaint in electronic form would satisfy this requirement. The HDS then places the appeal before the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member of that authority, who must then place it before a panel of three members appointed by the authority for the purpose (which cannot include the chair or presiding member of the authority).
25. The panel will then determine the complaint. The panel will determine whether or not the member is entitled to a period of family absence under the Regulations. Where the panel determines that the member is entitled to a period of family absence, that member will take a period of family absence in accordance with the Regulations.
26. A period of family absence may have been cancelled by the local authority mid-way through the period of family absence. Having been established to consider a complaint, the panel could then determine that the member is in fact entitled to a period of family absence. In those circumstances, the member will be entitled to a period of absence to the extent set out under the Regulations. Any period already taken will be taken into account in determining the remaining entitlement to family absence.
27. Where a panel determines that a member is not entitled to a period of family absence the member will not be eligible to a period of family absence under the Regulations and will be therefore expected to continue their duties as a member.
28. A local authority's standing orders must include provisions describing the circumstances in which a member on maternity or parental absence (only) to continue to perform some duties if so desired. This should enable a member on such leave of absence to attend a particular meeting or type of meeting or perform a particular duty or type of duty on receipt of permission granted by

the chair of the local authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member of that authority. This might be the case, for instance, where the member has a well known particular interest in a matter of business or if urgent business affecting their local area is being considered. Before agreeing to such a request, the chair of authority, or where a local authority has elected a presiding member, the presiding member of that authority, must inform the leaders of all political groups on the council. Should there be a dispute, a panel established as above should make the final decision.

29. Standing orders should also provide as to whether any duty conferred on members should be performed during a period of family absence. This might, for instance, enable a member on family absence to be asked to attend a meeting if it might otherwise be inquorate. The standing orders could enable different arrangements to be made for different members. There might be a particular area of expertise possessed by a member which would be difficult to replace on a temporary basis, which might suggest a limited commitment could still be expected of a member in defined circumstances. However, the effect of any such provision under the standing orders should not be contrary to the purpose of the Measure and Regulations.
30. It should be noted that the absence of a member for family absence reasons should not trigger any reallocation of representation in accord with political balance. For such calculations, the member should be treated as a full member of the council and therefore any substitution should be open only to a member of the same political group.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag